OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 65 (Cy.15)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*13 Ionawr 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*15 Ionawr 2010*
Yn dod i rym - -	*5 Chwefror 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr offerynnau Cymunedol a roddir ar waith gan y Gorchymyn hwn gael effaith fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 5 Chwefror 2010.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw ddaliad lle y cedwir neu y bwriedir cadw un neu ragor o heidiau o dyrcwn;

ystyr "haid" ("*flock*") yw'r holl dyrcwn o'r un statws iechyd â'i gilydd a gedwir yn yr un fangre neu yn yr un caeadle ac sy'n ffurfio un uned epidemiolegol ac, yn achos tyrcwn dan do, yn cynnwys pob aderyn sy'n rhannu'r un gofod awyr;

ystyr "haid o dyrcwn" ("*turkey flock*") yw—

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(a) haid o fwy na 250 o dyrcwn a gedwir at fridio;

(b) haid o fwy na 500 o dyrcwn a gedwir at gynhyrchu cig y bwriedir i bobl ei fwyta oni bai—

(i) bod llai na 10,000 o dyrcwn unigol yn cael eu cadw mewn unrhyw gyfnod o 12 mis ar y daliad lle y ceir yr haid, a

(ii) bod yr holl gig yn cael ei gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") o ran unrhyw ddaliad yw'r person sydd â gofal y daliad.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, mae cyfeiriad at—

(a) Rheoliad (EC) Rhif 584/2008 yn gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng mynychder *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn tyrcwn (**3**),

(b) Rheoliad (EC) Rhif 646/2007 yn gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng mynychder *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn brwyliaid ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1091/2005(**4**),

(c) Rheoliad (EC) Rhif 1177/2006 yn gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ynghylch defnyddio dulliau rheoli penodol yn fframwaith y rhaglenni gwladol i reoli Salmonela mewn dofednod (**5**),

ym mhob achos fel y'u diwygir o dro i dro.

Awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

(a) Rheoliad (EC) Rhif 584/2008;

(b) Rheoliad (EC) Rhif 646/2007; ac

(c) Rheoliad (EC) Rhif 1177/2006.

Samplu

4.—(1) Rhaid i'r meddiannydd samplu yn unol â phwyntiau 1 a 2 o'r Atodiad i Reoliad (EC) Rhif 584/2008 a rhaid iddo anfon samplau i labordy a gymeradwywyd yn unol â phwynt 3.1 o'r Atodiad hwnnw (ac at ddibenion y pwynt hwnnw mae "express mail" yn cynnwys post dosbarth cyntaf).

(2) O ran pob sampl rhaid i'r meddiannydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r meddiannydd;

(b) cyfeiriad y daliad;

(c) math y samplau;

(ch) y dyddiad pryd y cymerwyd y samplau;

(d) dull adnabod yr haid, pan fo mwy nag un haid ar y daliad;

(dd) y dyddiad pryd y symudodd yr haid i'r daliad;

(e) oed yr haid.

(**3**) OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t. 3.
(**4**) OJ Rhif L 151, 13.6.2007, t. 21.
(**5**) OJ Rhif L 212, 2.8.2006, t. 3.